Pum Ffordd at Les
a'r celfyddydau

Syniadau Syml

Cysyllltu...

- Creu darlun ag e-bostio copi i ffrind.
- Gyrru cerdyn wedi ei wneud â llaw i aelod o'r teulu.
- Rhannu cân neu gerdd ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Ffrydio perfformiad cerddorol o'ch cartref ar y we.
- Ffoniwch gyfaill i sgwrsio am lyfr 'da chi'n ddarllen.

Cymryd Sylw...

- Astudiwch a mwynhewch waith celf artist ar y we.
- Edrychwch drwy'r ffenestr a gwnewch sgets o'r olygfa.
- Beth am ddechrau 'sgwennu dyddiadur a'i addurno â lluniau hardd?
- Cerwch allan i'r ardd i dynnu lluniau â chamera.
- Crewch rywbeth allan o glai a sylwch ar y gweadedd a'r siapiau 'da chi'n creu.

Rhoi...

- Rhannwch un o'ch hoff ddyfyniadau ar y cyfryngau cymdeithasol i ysbrydoli creadigrwydd eraill.
- Adroddwch stori i blant eich ffrindiau neu i'ch wyresau a wyrion i'w fwynhau drwy WhatsApp.
- Paentiwch lun o enfys a'i osod yn eich ffenestr i godi calon pobl sy'n pasio'ch tŷ.
- Rhannwch eich hoff lincs a syniadau creadigol â'ch ffrindiau a chydweithwyr.
- Beth am greu gludwaith o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu i aelod o'r teulu neu ffrind?

Bod yn Actif...

- Chwaraewch eich hoff ganeuon a dawnsiwch o amgylch y gegin.
- Dyfeisiwch gêm newydd neu helfa drysor i'w chwarae yn y tŷ gyda'r plant.
- Cerwch am dro gyda'ch camera neu lyfr sgets.
- Beth am greu patrymau neu gerfluniau yn yr ardd gan ddefnyddio deunyddiau naturiol fel dail a brigau?
- Adeiladwch farcud syml, ei addurno a'i hedfan yn eich gardd.

Dal i Ddysgu...

- Cymerwch ran mewn cwrs celfyddydol ar-lein.
- Arbrofwch â chyfrwng celfyddydol newydd - beth am 'sgwennu cerdd am y tro cyntaf?
- Gwyliwch diwtorial creadigol ar YouTube a rhowch gynnig arni.
- Ymwelwch ag arddangosfa gelf neu hanes ar-lein.
- Cydweithiwch ag aelod o'r teulu i ddysgu crefft newydd megis gweu neu wnio.

COVID-19

Poster gan Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd.